# Canlyniadau'r ymgynghoriad ar y fersiwn drafft o'r Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd (Cymru)

Rhwng 15 Mai a 9 Mehefin 2023, ymgynghorodd QAA ar fersiwn ddiwygiedig o lawlyfr y dull Adolygiad Gwella Ansawdd (Adolygiad GA). Mae'r dull adolygu hwn wedi ei lunio i fodloni gofynion y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru (FfAAC) a gofynion CCAUC i ddarparwyr a reoleiddir yng Nghymru gael adolygiadau ansawdd allanol yn rheolaidd.

Mae'r broses o ddiweddaru'r Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd wedi gofyn gweithio gyda'r sector addysg uwch yng Nghymru drwy weithdai i randdeiliaid, cyfarfodydd cyswllt sefydliadol gyda darparwyr, goruchwyliaeth gan grŵp cynghori allanol ac ymgysylltiad â grwpiau'r sector. Cynrychiolodd ymgynghoriad allanol gam olaf y broses o fireinio llawlyfr y dull adolygu. Derbyniodd QAA gyfanswm o saith ymateb i'w hymgynghoriad, fel a ganlyn: chwe ymateb gan ddarparwyr addysg uwch ac un gan gorff sy'n cynrychioli'r sector.

## Crynodeb

Hoffai QAA ddiolch i'r ymatebwyr i'w hymgynghoriad am eu sylwadau ystyrlon a defnyddiol sydd wedi bod yn hynod o werthfawr wrth lunio fersiwn derfynol y llawlyfr. Dyma rai o'r golygiadau nodedig a wnaed yn y llawlyfr:

- mireinio ac egluro'r broses fonitro interim a'r broses ddilyniant ymhellach
- cryfhau ymrwymiad QAA i'r Gymraeg
- adolygu a mireinio'r diffiniadau
- ychwanegu datganiad am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Ar y cyfan, gwnaethpwyd golygiadau bychain mewn ymateb i gyfraniadau eraill i egluro ystyr termau a gweithrediad y dull, ac i wella ffocws, cysondeb a chywirdeb y dull drwy gydol y ddogfen. Yn ogystal â helpu i lunio fersiwn derfynol y llawlyfr, mae nifer fawr o'r sylwadau'n ddefnyddiol hefyd yng ngwaith QAA o baratoi ar gyfer hyfforddi'r adolygwyr a'r Prif Gynrychiolwyr Myfyrwyr, a bydd yn cyfrannu at y gwaith o ddiweddaru'r Canllaw i Fyfyrwyr am Adolygiadau QAA yng Nghymru.

Cyfeiriodd yr ymatebion rywfaint at bryderon am nifer o agweddau yng ngweithrediad y dull adolygu. Roedd y pryderon hyn yn cynnwys y canlynol:

- argaeledd tystiolaeth briodol i ddarparwyr yn gynnar yn y cylch
- y maint o newid mewn arferion sicrhau ansawdd a fyddai'n gofyn gwerthuso'r arferion yn hytrach na'u cadarnhau
- sut fydd y dull o sicrhau gwelliant yn sicrhau cydraddoldeb rhwng darparwyr sy'n cael eu hadolygu ar wahanol bwyntiau yn y cylch adolygu
- sut i ddethol y dystiolaeth briodol o fewn y cyfyngiadau ar faint y sail tystiolaeth.

Bydd QAA yn darparu rhagor o gyfleoedd i bob parti ymgysylltu a gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r pryderon hyn mewn cyfres o weithdai yn ystod hanner cyntaf blwyddyn academaidd 2023-24. Bydd y gweithdai hyn yn amcanu i adeiladu dealltwriaeth a chytundeb cyffredin yn

y rhannau allweddol hyn o'r broses adolygu fel ei fod yn cael ei weithredu'n gyson o ddechrau'r cylch adolygu. Bydd rhagor o fanylion ar gael maes o law.

Yn olaf, hoffai QAA ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu fersiynau diwygiedig y dull Adolygiad GA a'i lawlyfr. Canolbwyntiodd y dull newydd ar weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid ac roedd yn cynnwys gwerthusiadau, gweithdai, cyfarfodydd, grŵp cynghori ac ymgynghoriad. Mae QAA yn ddiolchgar i'r sector am ei ymrwymiad i'r dull adolygu hwn.

# Ymatebion i'r ymgynghoriad a'i ganlyniadau

## Gwelliant

**5) A yw'r dull cyffredinol yn rhoi digon o ffocws ar welliant mewn ansawdd?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydy | 5 | Nac ydy | 0 | Ddim yn siŵr | 2 |

**6) At ddibenion y dull Adolygiad GA, mae'r term 'gwelliant' wedi ei ddiffinio fel 'y broses o ddefnyddio tystiolaeth i gynllunio, gweithredu a gwerthuso camau pwrpasol i wella profiad dysgu'r myfyrwyr'. A fydd y diffiniad hwn o'r term 'gwelliant' yn gosod sail ddefnyddiol ar gyfer gweithio gyda'r dull adolygu hwn?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Bydd | 7 | Na fydd | 0 | Ddim yn siŵr | 0 |

### Sylwadau

Nododd yr ymatebwyr bod y diffiniad o'r term 'gwelliant' wedi aros yr un fath ers y dull blaenorol ac mae hyn yn helpu i sicrhau parhad. Roedd sylwadau am y dull adolygu'n cynnwys y ffaith y dylai'r ffocws ar ddull strategol y darparwr o wella ansawdd wella'r cydbwysedd rhwng swyddogaethau'r dull adolygu o ran sicrhau a gwella o'i gymharu â'r cylch blaenorol. Roedd un ymatebwr yn ystyried bod mireinio datganiadau gwelliant (cynllunio, gweithredu a gwerthuso) sy'n caniatáu cydnabod aeddfedrwydd gweithgareddau gwella, yn welliant defnyddiol. Roedd ymatebwr arall yn teimlo y gallai'r penderfyniad i beidio cynnwys beirniadaeth am y gwelliant achosi i adolygwyr ganolbwyntio fwy ar arferion sicrhau ansawdd, yn enwedig os cafwyd newidiadau sylweddol mewn trefniadau ansawdd oedd yn gofyn gwerthuso yn hytrach na chadarnhau.

Rhoddodd nifer o'r ymatebwyr sylwadau naill ai'n gyffredinol neu'n benodol ar rai meysydd o'r llawlyfr pan oedden nhw'n ystyried bod angen cael mwy o gysondeb neu fwy o ffocws ar welliant mewn ansawdd. Ystyriwyd bod nifer o osodiadau yn y llawlyfr yn canolbwyntio ar y broses yn hytrach na'r canlyniadau neu nad oeddent yn cyfateb â'r bwriad i ganolbwyntio ar y canlyniadau. Maes arall lle cafwyd sylwadau oedd y posibilrwydd o gymysgu gwaith gwella ehangach y sector gyda'r dull Adolygiad GA sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau sefydliadol. Un pwynt terfynol a godwyd gan un o'r ymatebwyr oedd bod gan y darparwyr hynny sy'n cael eu hadolygu ar ddechrau'r cylch lai o dystiolaeth efallai o'r cam gwerthuso na'r rheiny sy'n cael eu hadolygu yn hwyrach yn y cylch.

### Ymatebion

Mewn ymateb i'r sylwadau a'r pryderon hyn, mae QAA wedi adolygu'r llawlyfr i sicrhau bod sôn priodol am welliant mewn ansawdd a bod cydbwysedd rhwng arferion gwella ac arferion sicrhau ansawdd yn y testun. Ar y cyfan, mae QAA yn fodlon gyda'r testun ac mae wedi adolygu'r llawlyfr i sicrhau bod y geiriad wedi ei fynegi'n fwy priodol drwy wneud nifer o olygiadau bychain er mwyn sicrhau cysondeb drwy'r ddogfen gyfan.

Trwy gydol y broses o ddatblygu'r llawlyfr, mae QAA wedi bod yn ymwybodol o'r adborth gan y sector ynglŷn â sicrhau bod ffocws yr adolygiad yn gwahaniaethu rhwng dull strategol y darparwr o sicrhau gwelliant a'i gyfranogaeth mewn gwaith gwella ehangach, ac mae QAA yn hyderus bod y pryder hwn wedi derbyn sylw llawn erbyn hyn drwy adolygu'r testun. Trwy ddilyn blaenoriaethau'r darparwr ei hun i lywio ffocws yr adolygiad ar ddull strategol y darparwr, y gobaith yw lleihau'r posibilrwydd o greu anfantais i'r darparwyr hynny sy'n cael eu hadolygu yn gynharach yn y cylch. Cydnabyddir bod y pwynt sy'n ymwneud ag argaeledd tystiolaeth ar gyfer gwerthuso gweithgareddau gwella mewn perthynas â'r darparwyr hynny sy'n cael eu hadolygu yn gynnar yn y cylch yn wir bryder posibl. Mae QAA yn bwriadu ymdrin â hyn gyda gweithgaredd i baratoi ar gyfer cyflwyno'r dull adolygu yn y flwyddyn academaidd sy'n dod i'r holl gyfranogwyr allweddol.

**7) A yw'r dull o adolygu gwelliant mewn ansawdd drwy ddilyn blaenoriaethau gwelliant a ddewisir gan y darparwr yn galluogi i'r adolygiad archwilio dull strategol y darparwr o sicrhau gwelliant yn effeithiol?**

| Ydy | 5 | Nac ydy | 0 | Ddim yn siŵr | 2 |
|---|---|---|---|---|---|

## Sylwadau

Dywedodd nifer o'r ymatebwyr bod y cyfle i'r darparwyr ddewis blaenoriaethau gwelliant er mwyn egluro eu dulliau strategol o sicrhau gwelliant yn ddefnyddiol mewn nifer o ffyrdd: roedd yn rhoi hyblygedd, yn diwallu anghenion arbennig y darparwyr unigol ac yn caniatáu trafodaeth ag iddi fwy o ffocws gyda'r tîm adolygu. Ystyriwyd bod y dull hwn o adolygu gwelliant mewn ansawdd drwy flaenoriaethau gwelliant yn caniatáu digon o dystiolaeth i alluogi i'r tîm adolygu gynhyrchu datganiad. Ymhelaethodd un ymatebwr drwy ddweud y dylai blaenoriaethau gwelliant hefyd helpu'r tîm adolygu i ddeall sut mae darparwr yn ystyried adborth gan y myfyrwyr ac yn defnyddio tystiolaeth i gynllunio, gweithredu a dangos gwelliannau ym mhrofiad y myfyrwyr. Awgrymodd un o'r ymatebwyr y dylid cael rhywfaint o hyblygrwydd yn y dull oherwydd efallai bod gan ddarparwyr un flaenoriaeth gwelliant sy'n cwmpasu'r cyfan y maent eisiau canolbwyntio arno.

Un o'r ystyriaethau pellach a godwyd gan ymatebwyr oedd y byddai'n ddefnyddiol ystyried sut y byddai'r dull yn darparu asesiad mwy cyfannol ac ehangach o ddiwylliant gwella ansawdd y darparwr, yn hytrach nag asesu nifer o brosiectau (blaenoriaethau gwelliant). Yn gysylltiedig â hyn, rhoddodd dau ymatebwr sylwadau ynglŷn â rhoi'r cyfle i ddarparwyr ddarparu datganiad cyd-destunol byr yn rhan o'r hunan-ddadansoddiad, yn hytrach na dibynnu'n gyfan gwbl ar astudiaethau achos, er mwyn gadael iddyn nhw esbonio sut mae'r blaenoriaethau gwelliant yn ffitio o fewn eu fframwaith gwella ehangach.

Roedd un o'r ymatebwyr yn ystyried effeithiolrwydd y dull mewn perthynas â gwella ansawdd; bydd y posibilrwydd y bydd yn ychwanegu gwerth o safbwynt y darparwr yn dibynnu ar brofiad y panelau adolygu o gymheiriaid a'r hyfforddiant y maent wedi ei dderbyn, neu fel arall bydd y panelau adolygu'n cadarnhau'r hyn y mae'r darparwr yn ei wybod yn barod.

Yn olaf, roedd un ymateb yn disgrifio'r defnydd a wneir o'r ymadrodd 'ymgysylltiad â chymheiriaid' wrth ddiffinio blaenoriaeth gwelliant (Atodiad 1) fel un amwys.

## Ymatebion

Diben yr elfen o'r adolygiad sy'n canolbwyntio ar welliant mewn ansawdd yw darparu datganiad cyffredinol am ddull strategol y darparwr o wella ansawdd. Bwriedir i hwn fod yn ddatganiad cyffredinol am ddull y darparwr sydd wedi ei ddangos drwy'r blaenoriaethau gwelliant a ddewiswyd ar gyfer yr adolygiad. Bydd angen i'r timau adolygu werthuso'r blaenoriaethau hyn yng nghyd-destun ehangach dull y darparwr. I bwysleisio'r pwynt hwn, diwygiwyd pennawd yr adran am welliant yn yr adroddiad i 'Ddatganiad(au) am ddull strategol y darparwr o sicrhau gwelliant' yn hytrach na datganiadau am ddulliau'r darparwr o gyflawni ei flaenoriaethau o ran gwelliant (Atodiad 7).

Er bod QAA o'r farn, ar y cyfan, bod y llawlyfr yn ymgorffori'r gwerthusiad cyfannol hwn, bydd hi'n hanfodol i'r timau adolygu roi eu hymholiadau yng nghyd-destun arferion ehangach y darparwr, sef pwynt sydd angen ei atgyfnerthu yn yr hyfforddiant a chanllawiau i adolygwyr.

Mae QAA yn cefnogi cynnwys datganiad cyd-destunol byr yn yr hunan-ddadansoddiad i roi mwy o gyd-destun i astudiaethau achos mewn perthynas â fframwaith gwella'r darparwr ac mae'r pwynt hwn wedi ei gryfhau yn yr adran berthnasol am yr hunan-ddadansoddiad.

Trwy gydol y cyfnod o werthuso a datblygu'r dull adolygu, cafwyd un neges gyson gan y darparwyr am sicrhau gwerth ychwanegol o'r broses adolygu mewn perthynas â'u dulliau o wella ansawdd drwy gael mwy o ddeialog a deialog mwy ystyrlon rhwng cymheiriaid. Gobeithir y bydd y ffocws ar y dull strategol o sicrhau gwelliant a'r camau i roi mwy o ffocws ar welliant yn ystod yr ymweliad adolygu'n darparu strwythur a fydd yn helpu i alluogi hyn. Hefyd, bydd QAA yn mynd i'r afael â'r mater hwn drwy ddethol a phenodi adolygwyr sydd â'r cymwysterau priodol a thrwy hyfforddi adolygwyr.

Yn olaf, adolygwyd a diwygiwyd geiriad y diffiniad o'r term 'blaenoriaeth gwelliant' (Atodiad 1) drwy ddileu'r cyfeiriad at ymgysylltiad â chymheiriaid, er mwyn cael gwared â'r pethau a allai gael eu hystyried yn amwys. Mae brawddeg wedi ei chynnwys yn Adran 3 i gydnabod y bydd rhai o'r blaenoriaethau gwelliant yn eang ac y gallant gwmpasu nifer o fentrau cysylltiedig.

**8) A fydd y dull o sicrhau gwelliant yn sicrhau cydraddoldeb rhwng darparwyr sy'n cael eu hadolygu ar wahanol bwyntiau yn y cylch adolygu?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Bydd | 1 | Na fydd | 0 | Ddim yn siŵr | 6 |

### Sylwadau

Er bod un ymatebwr o'r farn y byddai'r ffordd y caiff pob adolygiad ei roi yn ei gyd-destun yn sicrhau cydraddoldeb rhwng darparwyr, roedd y rhan fwyaf o'r darparwyr yn ansicr a fyddai'r dull o sicrhau gwelliant yn sicrhau cydraddoldeb rhwng darparwyr sy'n cael eu hadolygu ar wahanol bwyntiau yn y cylch adolygu. Roedd un o'r darparwyr o'r farn y byddai darparwyr sy'n cael eu hadolygu yn gynnar yn y cylch adolygu'n ffurfio achos prawf o'r dull newydd.

Tynnodd dau ymatebwr sylw at yr effaith y gallai ffactorau allanol ei chael ar y cydraddoldeb rhwng darparwyr sy'n cael eu hadolygu ar wahanol bwyntiau yn y cylch adolygu - yn arbennig unrhyw ddatblygiadau yn ymwneud â Chod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd), newidiadau yn y gofynion rheoleiddiol sylfaenol, a newidiadau a gyflwynir gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) sydd newydd ei sefydlu. Gallai'r newidiadau hyn effeithio ar y FfAAC ac, o ganlyniad, y meini prawf beirniadaeth a ddefnyddir yn y dull adolygu hwn. Byddai unrhyw newidiadau'n gofyn cyfathrebu'n glir â'r darparwyr os byddai'r newidiadau hyn yn effeithio ar y meini prawf beirniadaeth, a phan fyddai'r newidiadau'n gwneud hynny.

Roedd maes arall, yn gysylltiedig â'r sail tystiolaeth, lle'r oedd yr ymatebwyr yn pryderu am yr effaith ar ddarparwyr fyddai'n cael eu hamserlennu'n gynharach yn y cylch. Er enghraifft, a fyddai rhai trywyddau tystiolaeth a rhai dogfennau 'byw' ar gael, ac a fyddai angen cael elfen o naill ail ôl-osod rhai o'r dogfennau a ddisgwylir neu gynhyrchu datganiadau cyd-destunol yn ychwanegol at ddatganiadau sy'n bodoli'n barod, er mwyn bodloni'r meini prawf ar gyfer y sail tystiolaeth. Dywedodd un ymatebwr y byddai angen i ddarparwyr gael cymorth fel eu bod yn teimlo'n hyderus i ddarparu sail tystiolaeth llai swmpus.

Nododd yr ymatebwyr hefyd bod amseru'n ffactor a allai effeithio ar gydraddoldeb y darparwyr sy'n cael eu hadolygu ar wahanol bwyntiau yn y cylch adolygu. Er enghraifft, y ffaith y byddai adolygiadau ar amseroedd gwahanol yn gadael i'r darparwyr hynny sy'n cael eu hadolygu yn hwyrach yn y cylch elwa o gael mwy o amser i werthuso effaith yr adolygiad ar ddarparwyr eraill.

Rhoddwyd sylw arall am y gwahaniaethau rhwng yr amserlenni ar gyfer cylchoedd o adolygiadau strategol y darparwyr eu hunain a'r amserlen ar gyfer Adolygiadau GA; a'r angen am adolygu tystiolaeth yn gyson er mwyn i adolygwyr ddeall gwahanol gyd-destunau'r darparwyr unigol a sicrhau cydraddoldeb yn y broses a'i chanlyniadau rhwng darparwyr. Roedd un sylw arall am amseriad yr adolygiadau'n ymwneud â'r angen am sicrhau bod canlyniadau'r adolygiadau'n gyson dros y cylch, neu fel arall efallai y byddai'r casgliadau a'r cymariaethau'n amherthnasol. Mewn perthynas â'r materion hyn, pwysleisiodd nifer o'r ymatebwyr bwysigrwydd hyfforddi adolygwyr yn briodol.

Ystyriwyd hefyd bod sicrhau bod y canlyniadau'n gymaradwy rhwng darparwyr yn heriol pan fydd natur ac amrediad y cyfarfodydd yn ystod yr ymweliad adolygu'n dibynnu ar y blaenoriaethau gwelliant a ddewisir gan y darparwr unigol a faint o newidiadau sylweddol a welir yn nulliau'r darparwr o sicrhau ansawdd. Gallai achosi llawer llai o ffocws ar welliant mewn ansawdd i rai darparwyr.

Roedd un o'r ymatebwyr yn cefnogi gosod thema gwelliant i'r sector cyfan ar gyfer blwyddyn seibiant, nad yw wedi ei gynnwys yn y llawlyfr. Roedd yn cydnabod ei fod yn codi heriau o ran cydraddoldeb triniaeth rhwng y darparwyr sy'n cael eu hadolygu cyn ac ar ôl y flwyddyn seibiant, ond roedd y darparwr yn meddwl y gellid goresgyn hyn a'r cyfle i ymestyn themâu gwelliant y tu hwnt i Gymru i'r Alban a Gogledd Iwerddon.

## Ymatebion

Mewn perthynas ag effeithiau newidiadau allanol ar y dull adolygu, mae QAA wedi ei hymrwymo i gyfathrebu'n glir â'r sector am unrhyw newidiadau arfaethedig. Rhagwelir y byddai angen cael ymgynghoriad am unrhyw newidiadau mawr i'r broses adolygu a/neu ganlyniadau'r adolygiad. Ymhellach, gallai'r darparwyr ddisgwyl cael o leiaf 12 mis i ystyried pwyntiau cyfeirio newydd neu ddiwygiedig (mae hyn wedi ei nodi yn y llawlyfr erbyn hyn).

Mae QAA wrthi'n ystyried y ffordd orau o ateb sylwadau sy'n ymwneud ag argaeledd ac addasrwydd y dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer y dull diwygiedig ar ddechrau'r cylch. Gallai fod angen rhagor o esboniadau cyd-destunol fel yr awgrymwyd, a gellid gweithredu hyn yn rhan *tystiolaeth gyd-destunol* y sail tystiolaeth - sef elfen ychwanegol o'r sail tystiolaeth a luniwyd at y diben hwn yn dilyn adborth gan ddarparwyr. I fynd i'r afael â'r pryderon hyn, mae QAA yn bwriadu cynnal digwyddiadau a gweithdai yn ystod y flwyddyn academaidd sy'n dod i drafod y sail tystiolaeth. Gallai hyn gynnwys sut y gallai darparwyr ystyried cymorth parhaus i'w gilydd yn ystod y cylch adolygu.

Mewn perthynas â phryderon eraill am effaith yr amseru ar gydraddoldeb yr adolygiadau, amcan arfaethedig yr adolygiad yw canolbwyntio ar gyd-destun y darparwr fel corff ymreolaethol a ddylai leihau'r risg hwn ynghyd â hyfforddi adolygwyr. Mae'r olaf yn cynnwys y cysondeb mewn canlyniadau, yn cynnwys y datganiad am ddull strategol y darparwr.

Penderfynodd QAA i beidio cynnwys unrhyw fanylion am y flwyddyn seibiant neu themâu gwelliant i'r sector cyfan; roedd yr adborth a gafwyd gan y sector yn ystyried fod hyn yn cymhlethu ffocws yr adolygiad. Ond, mae QAA yn bwriadu gweithio gyda'r sector i ystyried yn fanylach sut y gellir sicrhau gweithgareddau rheoli ansawdd a wneir ar y cyd ledled Cymru a thu hwnt, yn arbennig wrth ystyried gweithredu yn ystod blwyddyn seibiant. Fodd bynnag, diweddarwyd y llawlyfr i gynnwys y diffiniad o'r term 'blaenoriaeth gwelliant' yn ei ystyr yn y dull adolygu hwn - er mwyn cydnabod bod darparwyr yn cymryd rhan yn barod efallai mewn gwaith gwella drwy bartneriaeth â darparwyr eraill (gallai hyn fod y tu allan i Gymru).

## Gwahaniaethu rhwng cadarnhau a gwerthuso arferion yn erbyn gofynion sylfaenol

**9) A yw'r broses adolygu ddiwygiedig yn galluogi i arferion gael eu cadarnhau os na chafwyd llawer o newid neu os cafwyd newidiadau parhaus mewn arferion yn y cyfnod rhwng adolygiadau?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydy | 5 | Nac ydy | 0 | Ddim yn siŵr | 2 |

### Sylwadau

Roedd un o'r ymatebwyr yn croesawu'r datblygiad oedd yn golygu bod yr adolygiad yn darparu cwmpas i'r gofynion sylfaenol gael eu cadarnhau gan y tîm adolygu ar ddiwedd y cyfarfod cyntaf â'r tîm, gan felly alluogi mwy o ffocws a thrafodaeth ar welliant mewn ansawdd yn ystod yr ymweliad adolygu. Yn yr un modd, roedd nifer o'r ymatebwyr yn cydnabod bod y llawlyfr yn nodi hyn yn glir: os na chafwyd newid yn y trefniadau ansawdd, neu os na chafwyd llawer o newid, bydd y ffocws pennaf ar gadarnhau yn hytrach na gwerthuso arferion. I un o'r ymatebwyr, roedd y baich ar y darparwr i sicrhau bod yr hunan-ddadansoddiad yn rhoi dealltwriaeth ddigonol i adolygwyr am y ffordd barhaus y mae'r darparwr yn rheoli safonau academaidd ac ansawdd ei ddarpariaeth. Yn ogystal, dylai timau adolygu gydnabod y bydd rhywfaint o newid yn yr arferion dros gyfnod o bum mlynedd am fod darparwyr yn gwella eu harferion yn barhaus ac yn ymateb i ffactorau allanol.

Cwestiynodd un o'r ymatebwyr y goblygiad bod cadarnhau arferion sicrhau ansawdd ar ei ben ei hun yn ddigon i fodloni'r gofynion sylfaenol ac y gallai egluro llinellau ymholi sy'n ymwneud â gwelliant arwain wedyn at argymhellion a meysydd o ddatblygiad parhaus.

Yn hanner yr ymatebion, cyfeiriwyd at y diffiniadau o'r termau 'cadarnhau' a 'gwerthuso' sydd wedi eu rhoi yn Atodiad 1, a sut y dylai timau adolygu fod angen ail werthuso newidiadau sylweddol yn unig. Rhoddwyd nifer o sylwadau am y ffordd y gellid diffinio'r term 'cadarnhau' yn fwy clir a sut y byddai'n ddefnyddiol darparu enghreifftiau o dystiolaeth sy'n dderbyniol.

### Ymatebion

Mae QAA yn croesawu'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (sef pum ymatebwr) o'r farn y byddai'r broses adolygu ddiwygiedig yn galluogi i arferion gael eu cadarnhau os na chafwyd llawer o newid, neu os cafwyd newid parhaus, yn yr arferion yn y cyfnod rhwng adolygiadau.

Mae QAA yn cydnabod bod arferion sicrhau ansawdd ac arferion gwella ansawdd yn perthyn i'w gilydd, ac y bydd gweithgareddau gwella'n cael eu hysbysu drwy arferion sicrhau ansawdd a chyfranogaeth y myfyrwyr. Mae'r ffaith hon wedi ei chydnabod yn Adran 2 a chyfeiriwyd at hyn mewn adrannau allweddol eraill o'r llawlyfr (er enghraifft, *Yr hunan-ddadansoddiad*). Mae QAA yn cytuno y gallai egluro llinellau ymholi sy'n ymwneud â gwelliant hysbysu'r argymhellion a wneir gan y tîm adolygu. Mae'r potensial i wella a chyfoethogi'r cyfleoedd dysgu wedi ei ymgorffori o fewn y diffiniad o'r term 'argymhelliad' (Atodiad 1) ac mae'n adeiladu ar adborth o'r gweithdai a thrafodaethau eraill.

I weld yr ymateb i'r sylwadau am y diffiniadau o'r termau 'cadarnhau' a 'gwerthuso', gwelwch Gwestiwn 10 a ofynnwyd yn benodol mewn perthynas ag Atodiad 1.

**10) Mae'r dull adolygu wedi ei seilio ar gadarnhau arferion sydd ar waith yn barod, lle bo'n bosibl, ac ar werthuso tystiolaeth yn fanylach os cafwyd newidiadau neu os canfuwyd risgiau yn rheolaeth y ddarpariaeth. Mae diffiniadau o'r termau 'cadarnhau/ail gadarnhau' a 'gwerthuso/ail werthuso' yn Atodiad 1. A yw'r diffiniadau o'r termau 'cadarnhau' a 'gwerthuso/ail werthuso' (Atodiad 1) yn ddefnyddiol?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydynt | 3 | Nac ydynt | 1 | Ddim yn siŵr | 3 |

## Sylwadau

Mewn dau ymateb, mynegwyd y farn bod y diffiniadau'n glir/ddefnyddiol a dim ond dau ymatebwr arall a welodd bod y diffiniad o'r term 'gwerthuso' yn briodol. Canolbwyntiodd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn ar y ddwy her ganlynol: tebygolrwydd ac effaith newid yn y cyfnod rhwng adolygiadau, a'r hyn a olygir gan newid sylfaenol i wahaniaethu rhwng y cadarnhau a'r gwerthuso.

Ystyriwyd bod potensial sylweddol am newidiadau mewn arferion yn y cyfnod rhwng adolygiadau oherwydd newidiadau yn yr amgylchedd rheoleiddiol a'r gofynion, yn ogystal â'r ffaith bod darparwyr yn datblygu ac yn gwella eu harferion yn barhaus. Ystyriwyd bod y cyd-destun hwn yn lleihau'r cwmpas ar gyfer cadarnhau arferion ac, o ganlyniad, y byddai gofyn i dimau adolygu werthuso lawer mwy na'r disgwyl.

Er bod un ymatebwr yn ystyried bod yr adran yn y llawlyfr sy'n ymwneud â thystiolaeth ategol yn darparu canllaw defnyddiol am werthuso, byddai nifer o ymatebwyr yn ystyried enghreifftiau neu ddarluniadau o ail werthuso'n ddefnyddiol. Ffordd arall o ystyried hyn oedd cael llawer mwy o eglurder ar yr hyn yw newid sylweddol oherwydd gallai hyn fod yn agored i ddehongliad. Yn ogystal, roedd un ymateb yn ystyried bod y diffiniad o'r term 'cadarnhau' yn ddiffiniad rhy gul ac y dylid ei diffinio fel y gwrthwyneb i ail werthuso - hynny yw, ni chafwyd newidiadau sylweddol.

Roedd sylwadau eraill yn cynnwys cais i ddefnyddio 'ail gadarnhau' yn gyson yn y llawlyfr yn hytrach na 'chadarnhau', ac eglurder am ganlyniadau ail werthuso yn hytrach na chadarnhau o ran y broses.

## Ymatebion

Mae QAA yn cydnabod her barhaus y newidiadau yn yr amgylchedd rheoleiddiol a'u heffaith ar brosesau ac arferion y darparwyr. Er hynny, mae QAA yn gobeithio y bydd y dull a ddefnyddir gan y broses adolygu sy'n gwahaniaethu rhwng arferion y gellir eu cadarnhau fel rhai sy'n parhau ac sy'n effeithiol, yn hytrach nag arferion sy'n gofyn am fwy o graffu, yn dal i fod o fudd yn gyffredinol. Mae QAA yn ystyried y ddealltwriaeth o'r hyn yw newidiadau sylweddol o'i gymharu â newidiadau bychain at ddiben gwahaniaethu rhwng y ddau ddull, yn rhywbeth sy'n sylfaenol bwysig i lwyddiant cyffredinol y dull adolygu. Bydd QAA yn gweithio gyda'r darparwyr a'r adolygwyr i archwilio ac adeiladu dealltwriaeth gyffredin o beth mae hyn yn ei olygu drwy ddigwyddiadau a gweithdai a gynhelir dros y flwyddyn academaidd sy'n dod. Er mwyn sicrhau cydraddoldeb drwy gydol y cylch adolygu, ystyrir hyn yn ddarn pwysig o waith. Gobeithir y bydd y dull cydweithredol hwn o fwy o werth na darparu rhagor o esboniadau/enghreifftiau yn y llawlyfr a allai fod o ddefnydd cyfyngedig wrth ystyried meysydd eraill.

Mewn ymateb i'r adborth am y diffiniad o'r term 'cadarnhau', mae QAA wedi ychwanegu 'maes o ddatblygiad parhaus' at y diffiniad, yn ogystal ag esbonio bod y broses o gadarnhau'n galluogi i arferion parhaus ac effeithiol gael eu hail gadarnhau. Mae'r golygiad diweddarach yn gwahaniaethu rhwng yr arfer o gadarnhau a chanlyniad yr ail gadarnhau. Yn yr un modd, gwahaniaethwyd rhwng 'gwerthuso' ac 'ail werthuso' lle gwneir ail werthusiad o'r newidiadau a gafwyd ers yr adolygiad diwethaf yn y dull neu'r broses.

**11) A oes unrhyw elfennau o'r broses adolygu sydd angen eu cryfhau er mwyn galluogi i'r adolygiad ganolbwyntio ar gadarnhau yn hytrach na gwerthuso fel y bo'n briodol?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Oes | 2 | Nac oes | 3 | Ddim yn siŵr | 2 |

### Sylwadau

Roedd sylwadau, a oedd yn weddol isel eu nifer, yn ymwneud â'r elfen 'cadarnhau' sy'n rhan o'r broses adolygu; yr angen am ddiffiniad clir a gwell; a'r pwysigrwydd bod hyn wedi ei esbonio'n llawn yn yr hyfforddiant i adolygwyr fel bod modd sicrhau mwy o ffocws ar welliant am na chyflawnwyd y bwriad hwn yn y cylch blaenorol. Ystyriwyd bod diffiniad clir yn hanfodol os oedd timau adolygu'n gallu ail gadarnhau'r gofynion sylfaenol yn ystod y cyfarfod cyntaf â'r tîm a gostwng y risg y byddai'r timau'n ail werthuso newidiadau bychain yn ystod yr ymweliad adolygu. Roedd un ymatebwr yn ei chael hi'n anodd rhagweld hyn heb weld sut mae'r prosesau diwygiedig yn gweithio wrth gael eu gweithredu.

### Ymatebion

Gwelwch yr ymateb i Gwestiwn 10.

## Dogfennaeth

**12) A yw hyd yr hunan-ddadansoddiad a'r cyfyngiad ar nifer y darnau o dystiolaeth ategol yn rhoi digon o gyfleoedd i'r darparwyr ddangos a chadarnhau'r ffordd y maent yn rheoli eu darpariaeth?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydy | 3 | Nac ydy | 1 | Ddim yn siŵr | 3 |

### Sylwadau

Roedd y sylwadau'n ymwneud ag amrediad o safbwyntiau ar hyd yr hunan-ddadansoddiad a nifer y darnau o dystiolaeth. Croesawodd un o'r ymatebwyr y cyfyngiad ar hyd yr hunan-ddadansoddiad ac roedd yn ystyried y gellid esbonio'r diwylliant o wella sydd gan y darparwr o fewn 20 tudalen. Rhoddwyd y sylw hefyd y dylai nodi beth yw hyd yr hunan-ddadansoddiad wella'r gallu i gymharu rhwng yr adolygiadau ac annog mwy o ddisgyblaeth a ffocws ar ba ddadansoddiad a thystiolaeth a ddarperir. Roedd un ymatebwr arall o'r farn y byddai'r hunan-ddadansoddiad byrrach a'r 100 o ddogfennau'n rhoi digon o dystiolaeth i'r tîm adolygu i'w alluogi i benderfynu'n briodol ar ei feirniadaethau. Roedd dau ymatebwr o'r farn y byddai'r cyfyngiadau ar hyd yr hunan-ddadansoddiad a nifer y darnau o dystiolaeth yn ddigonol i'r rhan fwyaf o'r darparwyr, ond efallai y byddai'n angenrheidiol mynd dros y cyfyngiad gosodedig os byddai'r darparwr eisiau rhoi cyd-destun ychwanegol neu gyd-destun sy'n ymwneud â maes sydd wedi bod o dan sylw o'r blaen. Croesawodd un o'r ymatebwyr y terfyn is ond nododd y gostyngiad dramatig o'i gymharu â dulliau adolygu blaenorol a allai wthio darparwyr i ganfod ffyrdd eraill o ddarparu gwybodaeth. Roedd un o'r ymatebwyr o'r farn bod y cyfyngiad ar hyd yr hunan-ddadansoddiad yn rhy dynn os oedd gan y darparwr flaenoriaethau gwelliant oedd wedi eu datblygu'n llawn (sy'n dangos cynllunio, gweithredu a gwerthuso) neu oedd â rheswm penodol dros ganolbwyntio ar arferion sicrhau/gwella ansawdd mewn maes penodol.

### Ymatebion

Mae QAA yn nodi bod rhai darparwyr yn fwy hyderus nag eraill eu bod yn gallu gweithio o fewn y paramedrau arfaethedig ar gyfer y sail tystiolaeth. Bydd llwyddiant o ran sicrhau bod adolygiadau'n gymaradwy'n dibynnu i raddau mawr ar allu'r darparwr i lynu at y paramedrau hyn.

Wrth ddatblygu'r dull diwygiedig, ystyriodd QAA yr adborth a'r pryderon gan y darparwyr ynglŷn ag a oedd digon o gyfle ganddynt i ddarparu gwybodaeth gyd-destunol ac, am y rheswm hwn, roedd wedi cynnwys categori ar wahân ar gyfer y math hwn o wybodaeth, sydd ar wahân i'r 100 darn o dystiolaeth ategol. Dylai hyn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon yn ymwneud â darparu cyd-destun ychwanegol.

Yn rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer gweithredu'r dull adolygu diwygiedig, mae QAA yn bwriadu dod â'r darparwyr a'r adolygwyr at ei gilydd i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o agweddau penodol o'r dull adolygu. Fel y dywedwyd yn ein hymatebion i Gwestiynau 8 a 10, mae QAA yn bwriadu cynnal gweithdai i ddarparwyr ac adolygwyr. Oherwydd y cysylltiad agos rhwng yr elfennau 'cadarnhau' a 'gwerthuso' yn y broses adolygu yn ogystal â'r sail tystiolaeth, bydd y gweithdai hyn hefyd yn ystyried beth sy'n ddarnau priodol o dystiolaeth. Hefyd, bydd QAA yn rhoi arweiniad am y disgwyliadau o ran tystiolaeth yn rhan o'r hyfforddiant i'r adolygwyr a'r Swyddogion QAA.

**13) Mae'r sail tystiolaeth yn cynnwys nifer o elfennau, fel a ganlyn: tystiolaeth ategol, gwybodaeth gyd-destunol a gwybodaeth a rennir gan CCAUC. A yw'r strwythur hwn yn helpu'r darparwyr i baratoi eu sail tystiolaeth ar gyfer eu hadolygiad?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydy | 6 | Nac ydy | 0 | Ddim yn siŵr | 1 |

## Sylwadau

Rhoddodd pedwar ymatebwr sylwadau am y wybodaeth a rennir gan CCAUC. Dywedodd dau o'r ymatebwyr hyn y byddai'n ddefnyddiol, er mwyn bod yn eglur, bod y wybodaeth ar gael i'r darparwr ar yr adeg y bydd CCAUC yn rhannu ei ddogfennau gyda QAA. Gofynnodd dau ymatebwr am eglurhad a fydd CCAUC yn darparu rhagor o wybodaeth gyd-destunol i gefnogi'r broses adolygu ac, os felly, pryd y bydd hyn ar gael i ddarparwyr.

Yn eu sylwadau, dywedodd dau ymatebwr y byddai strwythur y sail tystiolaeth a'r cyfyngiad ar nifer y darnau o dystiolaeth yn ddefnyddiol iddyn nhw. Mewn sylwadau manwl eraill, pwysleisiwyd bod angen i'r tîm adolygu fod yn ymwybodol o'r cyfyngiad hwn sy'n berthnasol i'r darparwr pan fydd y tîm yn gofyn am ragor o dystiolaeth ar ôl y cyfarfod cyntaf â'r tîm, a bod angen iddo esbonio a chyfiawnhau ei geisiadau'n glir. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid gofyn am ddogfennau ychwanegol yn ystod yr ymweliad adolygu.

Awgrymir bod angen i QAA helpu darparwyr i deimlo'n ddigon hyderus i weithio o fewn y cyfyngiadau ar faint y sail tystiolaeth ac mai dim ond yr hyn maen nhw'n ei ystyried yn hollol angenrheidiol y maen nhw'n ei gyflwyno.

## Ymatebion

Mae QAA wedi trafod ceisiadau gan ymatebwyr bod dogfennau a ddarperir gan CCAUC yn cael eu rhannu hefyd gyda'r darparwr. Bydd unrhyw wybodaeth gyd-destunol ychwanegol a ddarperir gan CCAUC i gefnogi'r adolygiad wedi ei rhannu'n barod â'r darparwr neu mae ar gael mewn ffordd arall i'r darparwr, neu mae ar gael i'r cyhoedd yn barod.

Mewn perthynas â cheisiadau gan dimau adolygu am ragor o dystiolaeth, mae QAA yn cydnabod y dylai'r adolygwyr a'r Swyddog QAA ofyn am dystiolaeth dim ond pan fydd hynny'n hollol angenrheidiol - dywedwyd ym mharagraff 84 y llawlyfr y bydd y Swyddog QAA yn craffu ar bob cais am dystiolaeth ychwanegol. Rydym wedi ychwanegu at y testun y bydd adolygwyr yn nodi pam maen nhw wedi gwneud y cais. Mae QAA yn cytuno â'r sylw y dylid gofyn am dystiolaeth yn ystod yr ymweliad adolygu dim ond o dan amgylchiadau eithriadol - dywedwyd ym mharagraff 96 y llawlyfr y dylid cadw ceisiadau o'r fath mor brin ag sy'n bosibl.

Yn olaf, mae QAA yn gobeithio y bydd ei gweithdai y flwyddyn nesaf yn helpu'r darparwyr i fagu hyder wrth weithio o fewn strwythur y sail tystiolaeth a'r cyfyngiadau ar nifer ei helfennau.

## Ymgysylltiad y myfyrwyr

**14) A yw'r broses adolygu ddiwygiedig yn galluogi i'r myfyrwyr fod yn bartneriaid yn y broses?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydy | 7 | Nac ydy | 0 | Ddim yn siŵr | 0 |

### Sylwadau

Cytunodd pob un o'r ymatebwyr y byddai'r broses adolygu ddiwygiedig yn galluogi i'r myfyrwyr fod yn bartneriaid yn y broses adolygu. Dywedodd un ymatebwr nad oedd hi'n ymddangos bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i nifer o'r pryderon a godwyd gynt am fewnbwn gan fyfyrwyr - gwerth cyflwyniadau gan fyfyrwyr, safon a/neu gyflawnrwydd yr adborth a geir gan fyfyrwyr yn ystod cyfarfodydd a'r pwysigrwydd a roddir i'r cyfraniadau hyn. Ar y llaw arall, roedd ymateb arall yn croesawu'r ffaith bod myfyrwyr yn chwarae rôl amlwg fel partneriaid yn y broses ac yn croesawu cyfarfodydd y tîm adolygu ar y cyd â staff a myfyrwyr i drafod cyfranogaeth mewn gweithgareddau gwella. Roedd un o'r ymatebion yn cynnwys sylwadau a roddwyd gan Undeb y Myfyrwyr i'r darparwr, a darparodd hyn rywfaint o adborth defnyddiol i QAA ar beth i'w gynnwys yn yr hyfforddiant i'r Prif Gynrychiolwyr Myfyrwyr ac yn y fersiwn wedi ei ddiweddaru o'r Canllaw i Fyfyrwyr am Adolygiadau QAA yng Nghymru.

### Ymatebion

Bydd QAA yn cymryd yr adborth i ystyriaeth wrth baratoi ar gyfer hyfforddiant i'r Prif Gynrychiolwyr Myfyrwyr ac wrth ddiwygio'r Canllaw i Fyfyrwyr. Bydd y pryderon a godwyd am werth a chyfraniad rhywfaint o'r mewnbwn gan y myfyrwyr hefyd yn hysbysu'r hyfforddiant i adolygwyr. Ni ystyrir bod angen gwneud addasiadau i'r llawlyfr.

## Canlyniadau'r adolygiad

**15) Mae canlyniadau'r Adolygiad GA yn cynnwys gwerthusiad y tîm adolygu o gamau gweithredu a gymerir gan y darparwr i wneud gweithdrefnau ac arferion penodol yn ymwneud ag ansawdd yn fwy effeithiol. I adlewyrchu'r ffaith bod y rhain yn feysydd sy'n cael eu gwella'n barhaus, newidiwyd y term a ddefnyddir o 'gadarnhadau' i 'feysydd sydd angen eu datblygu ymhellach' (gwelwch Atodiad 1). A yw'r eglurhad hwn o'r derminoleg yn ddefnyddiol?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydy | 5 | Nac ydy | 2 | Ddim yn siŵr | 0 |

### Sylwadau

Ystyriwyd bod yr eglurhad o'r derminoleg yn ddefnyddiol, ond roedd barn yr ymatebwyr yn amrywiol ynglŷn â defnyddio 'meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach' yn lle 'cadarnhadau'. Roedd yn well gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ddefnyddio'r term 'cadarnhau'. Yr hyn oedd yn amlwg yn y sylwadau oedd bod yn well gan bobl y term i gydnabod ei fod yn gam gweithredu a gymerir gan y darparwr i fynd i'r afael â gwendidau a ganfuwyd ganddo. Dywedodd yr ymatebwyr bod cyfeiriadau at gadarnhadau yn dal i fodoli mewn nifer o leoedd yn y testun. Un awgrym oedd y dylid creu argraff fwy positif drwy eu galw nhw'n 'feysydd sy'n cael eu gwella'n barhaus'.

### Ymatebion

Mae QAA wedi adolygu a diweddaru'r testun i sicrhau bod y derminoleg yn gyson. Mabwysiadwyd yr awgrym i ddefnyddio 'meysydd sydd o dan ddatblygiad parhaus' yn lle 'meysydd sydd angen

eu datblygu ymhellach', ac ystyrir bod y term hwn yn rhoi ystyriaeth i sylwadau eraill am adlewyrchu natur ragweithiol y camau gweithredu hyn a gymerir gan y darparwyr. Mae'r diffiniad wedi ei adolygu hefyd a gwnaethpwyd newid bach i adlewyrchu'r adborth.

## Y broses ddilyniant

**16) Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y broses fonitro interim?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | 7 | Nac ydw | 0 | Ddim yn siŵr | 0 |

**17) A yw'r trefniadau dilyniant ar gyfer gwahanol ganlyniadau'r adolygiad wedi eu hesbonio'n glir? A oes unrhyw feysydd sydd angen eu hesbonio ymhellach?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydynt / Nac oes | 5 | Nac ydynt / Oes | 2 | Ddim yn siŵr | 0 |

### Sylwadau

Canolbwyntiodd dau ymateb ar y cwestiwn a oedd gwerth mewn cael proses ddilyniant i ddarparwyr sydd wedi cael canlyniadau cadarnhaol, o'i gymharu â'r trefniadau blaenorol i gyhoeddi a diweddaru cynllun gweithredu. Roedd un ymateb yn ystyried y broses fonitro interim fel baich ychwanegol ar y darparwr o ystyried nad oedd yn atebol ar y pryd i weithgareddau monitro. Cafodd gwerth y broses ei gwestiynu hefyd mewn perthynas â swyddogaethau asesu ansawdd CCAUC - sef rhoi datganiadau sicrwydd blynyddol sy'n ofynnol gan y corff llywodraethu, a'r ymweliad sy'n digwydd bob tair blynedd. Awgrymir y dylai'r broses ddod yn weithredol dim ond yn rhan o'r broses ddilyniant ar gyfer canlyniadau 'gydag amodau'.

Mae sylw arall mewn perthynas â'r prosesau monitro interim yn ymwneud â'r diffyg eglurder am hyd a strwythur yr adroddiadau - sef yr adroddiad diweddaru byr a gynhyrchir gan y darparwr a'r adroddiad byr am ganlyniadau'r broses fonitro interim. Dywedodd un ymatebwr na ddylid ymestyn y broses fonitro interim y tu hwnt i'r materion sydd dan sylw yn y cynllun gweithredu. Yn olaf, awgrymwyd y dylid ystyried darparu templed ar gyfer cynllun gweithredu er mwyn sicrhau bod adroddiadau'n cael eu llunio'n gyson.

Ni roddwyd unrhyw sylwadau sy'n benodol berthnasol i'r ail gwestiwn.

### Ymatebion

Mae QAA wedi ychwanegu'r rhesymau at y llawlyfr am gyflwyno proses ddilyniant fwy ffurfiol ar gyfer cynlluniau gweithredu. Mae hyn yn cynnwys y sicrwydd y mae'r broses hon yn ei roi i CCAUC, sef y corff sy'n gyfrifol am gadw goruchwyliaeth addysgol ar ddarparwyr yng Nghymru, yn ogystal â'r cydymffurfiad â gofynion Rhan 2 yr ESG o ran sicrwydd ansawdd allanol (Safon 2.3), sy'n gofyn bod gan asiantaethau broses ddilyniant gyson ar gyfer ystyried y camau gweithredu a gymerir gan y sefydliad. Mewn perthynas â'r sylwadau am yr hyn a ystyrir yn faich y broses, mae QAA o'r farn y gellid gweithredu'r broses fonitro interim yn ystod cyfarfod cyswllt fel arfer yn hytrach nag ymweliad monitro interim ffurfiol ar wahân; mae hyn yn adlewyrchu'n well gynllun y broses gyfan o wneud adolygiad sicrwydd ansawdd allanol.

Hefyd, mae QAA wedi adolygu a diwygio testun Adran 6 y llawlyfr i esbonio'n fwy effeithiol yr elfennau sy'n gyffredin i'r broses o gynllunio camau gweithredu a'r broses ddilyniant.

Mae QAA yn bwriadu cynhyrchu arweiniad pellach am y broses fonitro interim, yn enwedig mewn perthynas â disgwyliadau o ran hyd yr adroddiadau a'r posibilrwydd o ddarparu templed ar gyfer cynllun gweithredu, a bydd yn cynnwys y darparwyr yn y trafodaethau hyn. Mae QAA yn cytuno â'r sylw ac yn pwysleisio'r egwyddor na ddylid ymestyn y broses fonitro interim y tu hwnt i'r materion sydd dan sylw yn y cynllun gweithredu.

## Yr adroddiad adolygu

**18) A yw cynnwys arfaethedig yr adroddiad adolygu (Atodiad 7) yn sail ddefnyddiol ar gyfer gwaith y darparwr o baratoi ar gyfer yr adolygiad?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydy | 7 | Nac ydy | 0 | Ddim yn siŵr | 0 |

**19) A yw cynnwys arfaethedig yr adroddiad yn darparu gwybodaeth a fydd yn ddefnyddiol i'r darparwyr, y sector a rhanddeiliaid eraill?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydy | 6 | Nac ydy | 0 | Ddim yn siŵr | 1 |

### Sylwadau

Rhoddwyd dau sylw mewn ymateb i bob un o'r ddau gwestiwn yma. Mewn perthynas â chynnwys arfaethedig yr adroddiad adolygu fel sail ar gyfer gwaith paratoi'r darparwr, ystyriwyd bod Atodiad 7 yn ganllaw defnyddiol tra bod un arall yn ystyried nad yw nifer y geiriau, sydd wedi eu rhannu'n gyfartal rhwng sicrhau ansawdd a gwella ansawdd, yn cyfateb â'r nod o roi mwy o ffocws ar welliant. Codwyd un ymholiad ynglŷn â chynnwys cyfeiriad pendant at gefnogi'r Gymraeg o fewn yr adran am y cam o weithredu blaenoriaethau gwelliant yn hytrach na'i fod wedi ei wau drwy'r blaenoriaethau gwelliant i gyd. Roedd un ymateb yn ystyried bod diffyg cyfatebiaeth rhwng ffocws yr adolygiad ar brofiad dysgu'r myfyrwyr ar un llaw a ffocws ar y graddau y mae myfyrwyr yn cymryd rhan mewn prosesau gwella ansawdd ar y llall.

Gofynnodd un o'r ymatebwyr am wella amseroldeb adroddiadau trosolwg/thematig o'r cylch llawn.

### Ymatebion

Mae QAA yn cytuno na ddylai'r cyfeiriad at y Gymraeg o fewn yr adran am ddull strategol y darparwr gael ei gyfyngu i'r isadran am y cam gweithredu, ac mae'r testun wedi cael ei newid. Mewn perthynas â phenawdau'r adroddiad, nodwyd uchod (Cwestiwn 7) bod geiriad pennawd Adran 3 wedi ei newid i ganolbwyntio ar y dull strategol cyffredinol o sicrhau gwelliant yn hytrach na blaenoriaethau gwelliant.

Mewn perthynas â'r sylw am y diffyg cyfatebiaeth yn y dull rhwng profiad dysgu'r myfyrwyr ac ymgysylltiad y myfyrwyr â gwelliant fel ffocws yr adolygiad, hoffai QAA dynnu sylw at y ffaith bod ymgysylltiad y myfyrwyr mewn gwelliant yn un elfen o'r datganiad am ddull strategol y darparwr o sicrhau gwelliant - sef un o'r gofynion ar gyfer y dull. Un o Arferion Cyffredin y Cod Ansawdd yw cynnwys y myfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, mewn prosesau. Wedi iddi ystyried y pwynt hwn, nid oedd QAA yn teimlo ei bod hi'n angenrheidiol gwneud unrhyw addasiadau pellach.

Mae QAA yn cydnabod yr adborth a roddwyd am brydlondeb y broses o lunio adroddiadau thematig. Mae cyfres o adroddiadau thematig wrthi'n cael ei pharatoi ar gyfer cylch cyntaf y dull Adolygiad GA, sydd i gael ei chyhoeddi yn ystod tymor yr hydref.

## Y Gymraeg a chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

**20) Sut y gellid newid y broses adolygu fel y mae wedi ei disgrifio yn y llawlyfr i gael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?**

**21) Sut y gellid newid y broses adolygu fel y mae wedi ei disgrifio yn y llawlyfr i gael effeithiau cadarnhaol ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg?**

### Sylwadau

Cadarnhaodd yr ymatebwyr bod y llawlyfr, yn cynnwys Atodiad 3 (*Y Gymraeg*), yn dweud yn ddigon clir bod modd gwneud cyfraniadau i'r broses adolygu yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd. Y brif broblem, a godwyd gan ddau ymatebwr, yw sicrhau bod digon o adolygwyr ar gael sy'n gallu gwneud yr adolygiad drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Ymatebion

Mae QAA wedi gwneud dadansoddiad ar gyfer y llawlyfr drafft o'r effaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Dyma rai o'r ychwanegiadau i'r llawlyfr: rhoi arweiniad ar sut i gwyno am y ffordd y mae QAA yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, ac ymdrin â nifer o feysydd er mwyn sicrhau'n well bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â'r Saesneg; er enghraifft, drwy ddarparu'r adroddiad adolygu drafft i'r darparwr yn y ddwy iaith. Mae QAA yn gweithredu nifer o brosesau rheolaidd, megis casglu a chofnodi dewisiadau iaith, sydd wedi eu hesbonio'n fanwl yn adrannau perthnasol y llawlyfr erbyn hyn.

Mae gan QAA nifer o siaradwyr Cymraeg yn ei chronfa adolygwyr, a bydd yn mynd ati i gryfhau'r agwedd hon o'i chronfa adolygwyr drwy archwilio cyfleoedd i benodi adolygwyr addas yn y dyfodol agos.

**22) Pa effaith mae'r diwygiad i'r broses adolygu'n ei chael o ran hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant? Beth arall sydd angen ei wella?**

### Sylwadau

Rhoddwyd dau sylw mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Nid oedd yr ymatebwr yn ystyried bod y diwygiad i'r broses adolygu wedi cael unrhyw effaith niweidiol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (CAC), a nododd bod y llawlyfr yn cymryd gofal i gynnwys amrywiaeth y myfyrwyr a'r ymrwymiad i egwyddorion CAC mewn perthynas â'r gronfa adolygwyr. Awgrymodd yr ymatebwr y dylid ystyried cynnwys atodiad sy'n atgyfnerthu'r ymrwymiad i egwyddorion CAC yn y broses adolygu mewn ffordd debyg i'r ffordd y mae'r dyletswyddau a'r ymrwymiadau i'r Gymraeg sydd gan QAA yn y broses adolygu wedi eu nodi yn Atodiad 3. Yn yr ymateb arall, nodwyd nifer o welliannau yn y broses ddiwygiedig: arweiniad eglur sy'n nodi y dylai cyfraniad y myfyrwyr anelu at gynrychioli barn yr ystod eang ac amrywiol o fyfyrwyr, ac sy'n pwysleisio sut y bydd Adolygiad GA yn archwilio i ba raddau mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â'i fyfyrwyr amrywiol i gyd, a pha mor effeithiol yw'r gweithio hwnnw.

### Ymatebion

Mae QAA wedi ystyried yr awgrym hwn ac mae'n cytuno y byddai atodiad yn atgyfnerthu'r ymrwymiad i egwyddorion CAC; felly, mae atodiad (gwelwch Atodiad 16) wedi ei ychwanegu at y llawlyfr cyhoeddedig.

## Sylwadau ychwanegol

**23) Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am y llawlyfr diwygiedig yr hoffech eu hychwanegu?**

### Sylwadau

Dyma rai o'r sylwadau eraill:

- Mae'r llawlyfr yn cyd-fynd â'r cynigion a wnaed gan CCAUC i ddiwygio'r dull o wneud adolygiad sicrwydd ansawdd allanol.
- Tynnwyd sylw at y diffyg cydnabyddiaeth yn y llawlyfr o effaith bosibl datblygiadau yn y sector, yn arbennig y gwaith o weithredu'r CADY, a fydd yn dod yn weithredol cyn cwblhau'r cylch adolygu.
- Ystyriwyd na fyddai'n ddefnyddiol adolygu Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU ar y yma.
- Rhoddodd dau ymatebwr sylwadau am y cyfle a gollwyd i gefnogi mwy o ffocws ar wella ansawdd; i un ohonynt, dyma oedd y cyfle i ddiwygio'r dull adolygu mewn ffordd fwy radicalaidd ac i'r llall, dyma oedd y cyfle i lunio llawlyfr newydd sy'n fyrrach ac yn fwy cryno.
- Mynegwyd amheuaeth am werth datganiad, yn hytrach na beirniadaeth, am ddull strategol y darparwr o sicrhau gwelliant, a nodwyd bod angen rhagor o wybodaeth am hyd a manylion y datganiad. Gofynnwyd am eglurhad a fyddai angen dilyn i fyny ar ddatganiad negyddol.
- Bydd y mater o roi mwy o ffocws ar welliant mewn ansawdd yn dibynnu ar y rolau y mae'r Swyddogion QAA a'r hyfforddiant a roddir i'r adolygwyr yn eu chwarae.
- Rhoddwyd pwyslais ar bwysigrwydd cynnwys ysgogwyr polisi gan Lywodraeth Cymru fel meysydd y gall yr Adolygiad GA eu gwerthuso.
- Dylai'r cyfarfod paratoadol ganolbwyntio ar feysydd o welliant, ac nid yw'n briodol trafod llinellau ymholi ar y pwynt hwn yn y broses adolygu.
- Nodwyd bod angen eglurhad am ddefnyddio Marc Ansawdd QAA ar gyfer y sector ehangach.

### Ymatebion

Mae QAA wedi gwneud nifer o addasiadau i'r llawlyfr mewn ymateb i'r sylwadau ychwanegol hyn. Cytunwyd nad yw'n briodol trafod unrhyw linellau ymholi arfaethedig yn ystod y cyfarfod paratoadol am mai canlyniadau trafodaeth a gwaith dadansoddi'r tîm adolygu yn ystod y cyfarfod cyntaf â'r tîm yw'r rhain. Yn yr un modd, mae'r cyfeiriad at ysgogwyr polisi Llywodraeth Cymru wedi ei ddisgrifio lle bo'n briodol.

O ran pryder bod cyfle wedi ei golli i roi mwy o ffocws ar welliant, mae QAA yn fodlon, o ddarllen y sylwadau a dderbyniwyd yn yr ymgynghoriad, y bydd y dull adolygu hwn yn rhoi digon o ffocws ar welliant mewn ansawdd (Cwestiwn 5) ac yn bodloni'r gofynion sydd wedi eu rhagnodi gan CCAUC. Er bod lle yn sicr i fynd ymhellach wrth adolygu'r dull, mae QAA wedi cydweithio â'r sector i gytuno ar y dull.

Mewn perthynas â chydnabod y gwaith o sefydlu'r CADY, cryfhawyd hyn yn y cyflwyniad i'r llawlyfr a nodwyd yn glir y bydd unrhyw newidiadau sylweddol yn y dull adolygu'n amodol ar ymgynghoriad gyda'r sector. Er y disgwylir i'r dull Adolygiad GA ddod yn rhan o ddulliau'r Comisiwn o wneud adolygiadau sicrwydd ansawdd allanol, mae'n debygol y bydd y llawlyfr yn cael ei ddiweddaru i gyfeirio at y CADY unwaith y bydd CCAUC wedi ei ddiddymu. Mae

QAA yn cydnabod hyn: er mwyn paratoi ar gyfer adolygiad, efallai y byddai pobl yn ei ystyried yn anfanteisiol gwneud newidiadau i'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol, gan gynnwys y Cod Ansawdd, yn ystod y cylch adolygu. Mae QAA wedi bod yn cynnal sgyrsiau manwl ac eang gyda'i haelodau a grwpiau eraill am [ddyfodol y Cod Ansawdd](). Bydd rhagor o drafodaethau'n cael eu cynnal yn ystod yr haf am ran ganolog y Cod Ansawdd (y Disgwyliadau, yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin), a bydd eu canlyniadau'n amodol ar ymgynghoriad yn yr hydref. Yn ei gwaith ar y Cod Ansawdd, mae QAA yn ymwybodol o'r defnydd a wneir ohono ar draws y DU, yn enwedig mewn gwledydd lle mae'r Cod yn tanategu trefniadau ar gyfer adolygu'n allanol. Mae QAA yn annog ei haelodau yng Nghymru i gymryd rhan yn y trafodaethau hyn. Mae cyfleoedd i alinio'n well â'r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd, er enghraifft, a allai gael ei ystyried yn fuddiol wrth ystyried cymariaethau rhyngwladol.

Mae QAA yn cytuno â'r sylw y bydd y nod o roi mwy o ffocws ar welliant yn dibynnu ar yr hyfforddiant a'r gefnogaeth a roddir i'r adolygwyr a'r Swyddogion QAA. Mae QAA yn sicrhau bod pob un o'r Swyddogion a'r adolygwyr yn cael eu hyfforddi ar gyfer y dull adolygu cyn iddynt wneud adolygiad.

Mae manylion y defnydd a wneir o Farc Ansawdd QAA i'w cael ym mharagraff 127, ac mae'r telerau ac amodau perthnasol wedi eu cyhoeddi ar wefan QAA. Ychwanegwyd datganiad am ddiben y Marc Ansawdd at yr adran hon.

Dyddiad cyhoeddi - Awst 2023

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2023
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786
www.qaa.ac.uk